



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 969 (Cy.126) (C.31)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 4)
2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adrannau 156(2) a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n dwyn i rym ddarpariaethau yn y Mesur sy'n diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd y darpariaethau a gychwynnir gan y Gorchymyn hwn yn sicrhau bod swyddogaethau'r Bwrdd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r Comisiynydd. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn cychwyn darpariaethau sy'n rhoi pwerau ychwanegol i'r Comisiynydd gan gynnwys pwerau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i wneud y gwaith paratoadol sydd ei angen ar gyfer cyflwyno safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 969 (W.126) (C.31)

WELSH LANGUAGE, WALES

The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No.4) Order 2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is made under sections 156(2) and 150(5) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and brings into force provisions of the Measure that abolish the Welsh Language Board and establish the office of Welsh Language Commissioner.

Provisions commenced by this Order will ensure the transfer of the Board's functions under the Welsh Language Act 1993 to the Commissioner. This Order also commences provisions conferring additional powers upon the Commissioner including powers that will enable the Commissioner to undertake preparatory work necessary for the introduction of Welsh language standards.

**NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION
CYCHWYN CYNHARACH**

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae darpariaethau canlynol y Mesur wedi eu dwyn i rym drwy orchmynton cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

<i>Y ddarpariaeth</i>	<i>Y dyddiad cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>
adran 2(2) (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)
adran 2(3) (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)
adran 23(1) (yn rhannol)	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)
adran 23(4)	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)
adrannau 138 a 139	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)
adran 146 (yn rhannol)	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)
adrannau 148 a 149	5 Chwefror 2012	2012/223 (Cy.37)
Atodlen 1, paragraffau 3, 7, 8, 13 ac 21	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)
Atodlen 4, paragraffau 1, 5, 10 ac 11	10 Ionawr 2012	2012/46 (Cy.10)
Atodlen 12, paragraffau 1, 2 a 6	28 Mehefin 2011	2011/1586 (Cy. 182)

**NOTE AS TO EARLIER
COMMENCEMENT ORDERS**

(*This note is not part of the Order*)

The following provisions of the Measure have been brought into force by commencement orders made before the date of this Order:

<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No.</i>
section 2(2) (partially)	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
section 2(3) (partially)	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
section 23(1) (partially)	10 January 2012	2012/46 (W.10)
section 23(4)	10 January 2012	2012/46 (W.10)
sections 138 and 139	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
section 146 (partially)	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
sections 148 and 149	5 February 2012	2012/223 (W.37)
Schedule 1, paragraphs 3, 7, 8, 13 and 21	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)
Schedule 4, paragraphs 1, 5, 10 and 11	10 January 2012	2012/46 (W.10)
Schedule 12, paragraphs 1, 2 and 6	28 June 2011	2011/1586 (W. 182)

2012 Rhif 969 (Cy.126) (C.31)

Y GYMRAEG, CYMRU

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 4)
2012**

Gwnaed

27 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 4) 2012.

Cychwyn

2. Daw darpariaethau canlynol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i rym ar 1 Ebrill 2012—

- (a) adrannau 2, 23, 138, 139 a 146 i'r graddau nad yw'r adrannau hyn eisoes mewn grym;
- (b) Atodlenni 1, 4 a 12 i'r graddau nad yw'r Atodlenni hyn eisoes mewn grym;
- (c) adrannau 3, 5 a 6;
- (d) adran 7 ac eithrio
 - (i) isadrannau (2) a (6) lle mae'r isadrannau hynny'n ymwneud â Rhan 5,
 - (ii) is-adrannau (3)(b), (4), (8) a (10);
- (e) Atodlen 2 ac eithrio paragraff 8(2)(a);
- (f) adrannau 8 i 10 a 12 i 15;
- (g) adran 16 ac eithrio isadrannau (2)(a) a (b);
- (h) adrannau 17 i 19;
- (i) cychwynnir Rhan 4 fel a ganlyn:
 - (i) Penodau 2 i 5,
 - (ii) Pennod 8, a

2012 No. 969 (W.126) (C.31)

WELSH LANGUAGE, WALES

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Commencement
No.4) Order 2012**

Made

27 March 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 150(5) and 156(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1), make the following Order:

Title

1. The title of this Order is the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Commencement No.4) Order 2012.

Commencement

2. The following provisions of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 come into force on 1 April 2012—

- (a) sections 2, 23, 138, 139 and 146 to the extent that these sections are not already in force;
- (b) Schedules 1, 4 and 12 to the extent these Schedules are not already in force;
- (c) sections 3, 5 and 6;
- (d) section 7 except for
 - (i) subsections (2) and (6) where those subsections relate to Part 5, and
 - (ii) subsections (3)(b), (4), (8) and (10);
- (e) Schedule 2 except for paragraph 8(2)(a);
- (f) sections 8 to 10 and 12 to 15;
- (g) section 16 except for subsections (2)(a) and (b);
- (h) sections 17 to 19;
- (i) Part 4 is commenced as follows:
 - (i) Chapters 2 to 5,
 - (ii) Chapter 8, and

(1) 2011 mccc 1.

(1) 2011 nawm 1.

- (iii) Pennod 9 ac eithrio adran 69;
 - (j) Atodlenni 5 i 9;
 - (k) Rhan 6;
 - (l) paragraffau 9 a 18 o Atodlen 11 ac adran 120(4) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny;
 - (m) adrannau 134 i 137;
 - (n) adran 140 ac eithrio'r canlynol:
 - (i) isadran (1)(c), a
 - (ii) isadrannau (1)(d) ac (e) lle mae'r isadrannau hynny yn cyfeirio at ymchwiliadau o dan Ran 5;
 - (o) adran 141 ac eithrio'r canlynol:
 - (i) isbaragraff (a) o'r diffiniad o "achwynydd", a
 - (ii) isbaragraff (b) o'r diffiniad o "ymchwiliad";
 - (p) adrannau 142, 143, 144(3)(b) a 147.
- (iii) Chapter 9 except for section 69;
 - (j) Schedules 5 to 9;
 - (k) Part 6;
 - (l) paragraphs 9 and 18 of Schedule 11 and section 120(4) in so far as it relates to those paragraphs;
 - (m) sections 134 to 137;
 - (n) section 140 except for the following:
 - (i) subsection (1)(c), and
 - (ii) subsections (1)(d) and (e) where those subsections refer to investigations under Part 5;
 - (o) section 141 except for the following:
 - (i) subparagraph (a) of the definition of "complainant", and
 - (ii) subparagraph (b) of the definition of "investigation";
 - (p) sections 142, 143, 144(3)(b) and 147.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

27 Mawrth 2012

27 March 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1265/04/12

ON